

# Beth yw egwyddorion Cyngor Ysgol neu grŵp disgyblion effeithiol?

Gan ddefnyddio ein tystiolaeth o arolygiadau fel man cychwyn, rydym wedi gweithio gyda disgyblion mewn ysgolion uwchradd er mwyn casglu eu syniadau ynghylch egwyddorion cynghorau ysgol neu grwpiau disgyblion effeithiol.

- Mae cynrychiolwyr disgyblion yn dod o grwpiau amrywiol sy'n cynrychioli'r gymuned gyfan ar draws pob blwyddyn
- Mae cynrychiolwyr disgyblion yn cael eu parchu gan eraill, yn llwyddiannus ac yn cymryd rhan mewn gwahanol agweddau ar fywyd ysgol, ac felly maent yn wybodus am yr ysgol gyfan
- Mae cynrychiolwyr disgyblion yn gwrando ar ddisgyblion eraill, yn amyneddgar ac yn cynrychioli barn pob disgybl nid yn unig eu hunain
- Ni ddylai fod unrhyw agwedd negyddol at farn unrhywun yng nghyfarfodydd y Cyngor. Mae'n ddiogel i rannu barn a chodi llais. Daw hyn gan bawb yn y grŵp - disgyblion a staff
- Mae arolygon rheolaidd i gael adborth cyson gan ddisgyblion ac athrawon am y materion pwysig i'w trafod yn Cyngor/grwpiau
- Mae'r Cyngor Ysgol/grwpiau disgyblion yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd fel bod y Cyngor Ysgol yn gallu adolygu penderfyniadau, eu heffaith a beth y gellir ei wella nesaf yn gyson
- Disgyblion sy'n rhedeg y cyfarfodydd, nid athrawon neu staff eraill
- Mae gan ddisgyblion wahanol rolau - cadeirydd, ysgrifennydd ayyb, ac maent yn deall sut i gyflawni'r rolau hyn (efallai drwy hyfforddiant)
- Mae gan gyfarfodydd agendâu sydd wedi eu cynllunio gan y disgyblion
- Mae cyfarfodydd yn mynd i'r afael â phynciau sy'n bwysig i'r disgyblion, yn ogystal â phynciau mae staff yr ysgol wedi gofyn iddynt drafod
- Mae'r Cyngor/grŵp yn trafod amrywiaeth o bynciau ac nid yr un pethau drwy'r amser yn unig (e.e. a yw'r Cyngor/grŵp yn trafod beth a sut maen nhw'n dysgu?)
- Mae trafodaethau'r Cyngor Ysgol yn canolbwyntio ar welliant ysgol
- Mae'r disgyblion ar y Cyngor/grŵp yn cynrychioli barn disgyblion eraill yr ysgol (e.e. maent yn casglu eu barn drwy gynghorau dosbarth a blwyddyn, trwy focsys neu arolygon awgrymiadau)
- Mae'r Cyngor/grŵp yn gwneud penderfyniadau ar yr hyn sydd wedi cael ei drafod ac yn penderfynu ar gamau gweithredu
- Mae rhywun o'r Cyngor/grŵp yn gyfrifol am bob gweithred ac yn ei symud ymlaen wedi'r cyfarfod
- Mae'r ysgol yn gweithredu ar awgrymiadau'r Cyngor Ysgol/grwpiau disgyblion
- Caiff penderfyniadau o'r cyfarfod eu cyfleu i ddisgyblion eraill yn yr ysgol a staff
- Trafodir cynnydd ar gamau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol yn dilyn cyfarfodydd
- Dylai fod adborth rheolaidd i'r holl fyfyrwyr a staff ynglŷn â chanlyniadau cyfarfodydd. Aelodau'r Cyngor Ysgol ddylai arwain yr adborth.
- Mae'r cyngor/grŵp yn gofyn yn rheolaidd am farn disgyblion a staff eraill ynglŷn â pha mor effeithiol ydyn nhw a faint mae disgyblion a staff eraill yn ei wybod am beth maen nhw'n ei wneud